# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 21 TACHWEDD 2019 am 9:30 y. b. | THURSDAY, 21 NOVEMBER, 2019 at 9:30 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

# R H A G L E N

1 **DATGAN DIDDORDEB**

Tderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2019.

3 **MONITRO PERFFORMIAD:CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 2 2019/20** (Tudalennau 9 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Alun Roberts,<br>Nicola Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) (ar gyfer eitem 3)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogaeth Gymunedol) |
| **YN PRESENOLDEB** : | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 3)<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitemau 3 a 4)<br>Prif Swyddog Cynllunio (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitemau 3 a 4)<br>Rheolwr Tîm TG (MH)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Bryan Owen, Mr Keith Roberts, Mrs Anest Frazer, Mr Dyfed Wyn Jones (Aelodau Cyfetholedig), Y Cynghorwyr R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid) Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd GO Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) (trwy wahoddiad), Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |



DRAFT

DRAFT

**1 DATGANIAD DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2019 a chawsant eu cadarnhau fel rhai cywir.

Yn codi o'r cofnodion -

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i benderfyniad yr Awdurdod i beidio â gosod targed ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ar yr Ynys.

Cadarnhaodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar gyflwyno strategaeth genedlaethol i leihau nifer y plant mewn gofal lle bydd pob awdurdod yn gosod targed ar gyfer lleihau'r nifer, yn dal i geisio dwyn pwysau ar y 5 awdurdod sydd wedi gwrthwynebu cam o'r fath, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae cefnogaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r safbwynt hwn fel y'i cadarnhawyd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf wedi ychwanegu pwysau i safiad yr Awdurdod o ran parhau i wrthwynebu. Mae'r Awdurdod o'r farn bod gosod targed yn ddiangen, bod gan yr Awdurdod strategaeth ar gyfer atal plant rhag dod i ofal ac na ddarparodd arolygiad diweddaraf CIW unrhyw dystiolaeth bod yna blant yng ngofal yr Awdurdod nad oedd angen iddynt fod mewn gofal.

**Cynigiwyd a phenderfynwyd bod y Pwyllgor yn ailadrodd ei gefnogaeth i Arweinydd y Cyngor wrth beidio â gosod targed ar gyfer lleihau nifer y plant y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt.**

**3 PERFFORMIAD MONITRO: CHWARTER SGORECARD CORFFORAETHOL 1 2019/20**

Cyflwynwyd - i'w ystyried a'i graffu gan y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori Cerdyn Sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20 yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar ddiwedd Chwarter 1.

Amlygodd Arweinydd y Cyngor fod llawer o waith wedi'i wneud dros fisoedd yr haf i ailwampio'r cerdyn sgorio i roi golwg mwy strategol iddo; mae hyn wedi cael ei gyflawni gan well alinio y DPA monitro corfforaethol i dri amcan strategol y Cyngor (gweler para 2.1) a drwy ddileu rhai DPAau yr ystyrir eu bod yn rhy weithredol ar gyfer y cerdyn sgorio. Ers i adroddiad cerdyn sgorio Ch4 2018/19 gael ei drafod ym mis Mehefin, 2019, mae'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) wedi'u cyhoeddi gan Data Cymru. Mae statws Ynys Môn yn genedlaethol wedi dangos gwelliant pellach gyda'r Awdurdod â'r nifer fwyaf o ddangosyddion yn y chwartel uchaf ledled Cymru. Ychwanegodd yr Arweinydd fod mwyafrif y DP ar ddiwedd Ch1 yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond gyda 5 wedi dechrau'r flwyddyn fel rhai sy'n tanberfformio ac wedi'u dynodi'n Goch neu'n Ambr ar y cerdyn sgorio. Mae'n rhy gynnar yn Ch1 fodd bynnag i ddod i gasgliadau o ran tueddiadau perfformiad o'r darlun a gyflwynir gan y cerdyn sgorio ar yr adeg hon.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch y dirywiad yr adroddwyd arno mewn agweddau ar berfformiad ym maes tai, cynllunio a gwasanaethau plant yn ystod Chwarter 1 ac a yw unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol yn cael eu hystyried i wella perfformiad, rhoddodd swyddogion eglurhad a sicrwydd fel a ganlyn -

- O ran gwella'r sefyllfa o Ch2 ymlaen wrth gyflawni'r amserlen darged ar gyfer gosod unedau llety gosodadwy (ac eithrio unedau Anodd i'w Gosod - DTLs) (21 diwrnod yw'r targed o'i gymharu â pherfformiad cyfartalog gwirioneddol o 25.6 diwrnod ac o'r herwydd, mae'n Goch ar y cerdyn sgorio - Dangosydd 34) dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod proses symlach newydd wedi'i chyflwyno a ddylai arwain at osod unedau mewn modd mwy amserol. Mae'r Gwasanaeth Tai yn gosod tua 260 o unedau bob blwyddyn a gwyddys fod tua 20% ohonynt yn rhaid anodd i'w gosod. Mae'r broses symlach newydd yn golygu bod y tîm Datrysiadau Tai yn cysylltu â'r tîm Cymorth Tai a'r tîm Digartrefedd pan ddaw eiddo anodd i'w gosod ar gael er mwyn sefydlu a oes unrhyw un o'u cleientiaid cofrestredig yn cyfateb i'r gofynion ac yn addas ar gyfer yr unedau dan sylw. Wrth i gynnydd gael ei wneud gyda'r dangosydd hwn, bydd perfformiad yn erbyn Dangosydd 35 - Gwasanaethau Landlord: canran y rhent a gollir oherwydd eiddo sy'n wag hefyd yn gwella oherwydd po fwyaf yr amser y mae'n ei gymryd i osod unedau llety gosodadwy, po uchaf yw'r rhent a gollir. Fel diweddariad, dywedodd y Swyddog fod perfformiad ar gyfer Dangosydd 34 ar 9 Medi wedi gwella i 21.4 diwrnod.
- O ran canran yr achosion gorfodi cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod - Dangosydd 43 (Coch ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 55% yn erbyn targed o 80%) dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod Uwch Reolwr profiadol wedi'i benodi yn ddiweddar i ddarparu arweinyddiaeth gadarn â ffocws i'r Tîm Gorfodi. Gwnaed gwaith sylweddol dros fisoedd yr haf i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hanesyddol ac er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo bydd y tîm hefyd yn ceisio delio ag achosion gorfodi mewn ffordd fwy amserol yn y dyfodol. Gwnaed cynnydd da felly gyda'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd amlwg dros bob chwarter yn 2018/19 wrth i brosesau newydd gael eu hymgorffori ac wrth i'r gwaith o glirio'r ôl-groniad barhau. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau i'r flwyddyn sydd i ddod. **Nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol, pe bai systemau'n caniatáu, i gynghorau cymunedol gael eu hysbysu am geisiadau cynllunio yn eu hardal neu fel cam cyntaf, i geisiadau gael eu dynodi fesul ward.**
- O ran canran yr asesiadau plant a gwblhawyd mewn amser - Dangosydd 25 (Ambr ar y Cerdyn Sgorio gyda pherfformiad o 85.32% yn erbyn targed o 90%) dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod y tanberfformio i'w briodoli i ddiffyg rheolaeth mewn un grŵp ymarfer a bod hyn bellach wedi'i gywiro. Cyflwynwyd proses newydd lle cesglir y data mewn ffordd wahanol a ddylai arwain at welliant yn Ch2.
- Dygodd y Cynghorydd Alun Roberts, aelod o'r Panel Sgriwtini Cyllid, sylw at y ffaith fod rhaglen ddigidol yn cael ei datblygu a fydd yn helpu'r Panel i ymchwilio i faterion ariannol yn fwy manwl yn enwedig o ran olrhain a sefydlu patrymau gwariant o fewn gwasanaethau. **Nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe bai'n derbyn cyflwyniad o alluoedd y rhaglen ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith yn llawn.**

**Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r sicrwydd a roddwyd gan Swyddogion ar y materion a drafodwyd, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel y cawsant eu hamlinellu i'r Pwyllgor Gwaith.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL - Gwybodaeth am nifer yr unedau Anodd i'w Gosod i'w hymgorffori yn adroddiad Chwarter 2 i'r Pwyllgor.**

DRAFT

## 4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynwyd yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol ar gyfer 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad, y mae gofyniad statudol ar yr Awdurdod i'w gyhoeddi, yn adolygu'r canlynol -

- cynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni yn erbyn ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2018/19 fel yr amlinellir o dan 3 amcan blaenoriaeth (mae para 1.3 yn cyfeirio atynt)
- ei berfformiad cyffredinol gan gynnwys perfformiad yn seiliedig ar ddangosyddion cenedlaethol (dangosyddion MAP a DPA lleol)

Adroddodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn gyffredinol yn rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad yr Awdurdod yn 2018/19 gan dynnu sylw at nifer o gyflawniadau o dan y 3 amcan allweddol tra hefyd yn cydnabod bod meysydd perfformiad y mae modd eu gwella ymhellach. Mae'n arbennig o braf nodi bod statws cenedlaethol y Cyngor, ar sail y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MAP) cyhoeddedig, wedi gwella unwaith eto eleni.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad gan nodi'n benodol y meysydd hynny lle gwnaed gwelliant amlwg e.e. canran y rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) a oedd yn faes a amlygwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor hwn fel mater o bryder. Nododd y Pwyllgor fod perfformiad 2017/18 ar gyfer y dangosydd hwn wedi arwain at Ynys Môn yn cael y ganran uchaf o bobl ifanc NEET yng Nghymru tra bod y dangosydd yn awr yn perfformio'n dda ac yn gyd 6ed yng Nghymru. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y dangosydd hwn, yn ogystal â dilysu'r data gwreiddiol, yn enghraifft o'r modd y mae'r drafodaeth ynghylch perfformiad wedi esblygu o fewn y Cyngor gyda'r tanberfformio wedi arwain at graffu cynyddol ar y dangosydd o fewn y Gwasanaeth a chan Aelodau Etholedig a thrwy hynny ysgogi newid yn y broses i wella ar y canlyniad.

Nododd y Pwyllgor ymhellach, er bod perfformiad 54% o ddangosyddion naill ai wedi gwella neu ei gynnal yn 2018/18, bod perfformiad 40% wedi gostwng o gymharu â pherfformiad yn 2017/18; gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o atebolrwydd o ran rheoli a gwella perfformiad. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn cael ei drafod gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) ac mewn cyfarfodydd un i un rhwng Penaethiaid Gwasanaeth unigol ac aelod o'r UDA. At hynny, mae trafod perfformiad, dadansoddi data a chynllunio ar gyfer gwella bellach wedi dod yn elfennau annatod o waith beunyddiol Penaethiaid Gwasanaethau sy'n golygu bod gwasanaethau i bob pwrpas yn hunanwerthuso eu perfformiad yn barhaus.

**Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cyhoeddi fersiwn derfynol o Adroddiad Perfformiad 2018/19 erbyn y dyddiad cau statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod Swyddogion yn cwblhau'r ddogfen mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio ar gyfer ei chyhoeddi fel rhan o'r papurau i'r Cyngor Llawn a gynhelir ar 7 Hydref, 2019.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 5 MONITRO CYNNYDD: GWELLIANNAU YN Y GWASANAETHAU PLANT CHWARTER 1 2019/20

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd.

Cyfeiriodd yr adroddiad at annog datblygiadau o dan bob un o'r 5 thema sy'n sail i'r Cynllun Datblygu (a ddisodlodd y Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol) yn benodol mewn perthynas â'r canlynol -

DRAFFT

- cynllunio gweithlu (mae Strategaeth Gweithlu bellach ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)
- arfer gwaith cymdeithasol (mae archwiliadau mewnol yn nodi lle gwnaed cynnydd cadarnhaol a lle mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau cysondeb ar draws pob maes);
- sicrhau ansawdd a'r fframwaith perfformiad (yr adroddir arno yn fanwl yng nghyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor)
- darparu ymyrraeth gwaith cymdeithasol priodol ac amserol (mae archwiliadau mewnol yn parhau i gael eu cynnal i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael cynnig ymyrraeth ar yr adeg iawn), a
- gwella canlyniadau i blant mewn gofal (mae sawl polisi newydd bellach yn weithredol sy'n caniatáu i staff gefnogi a gwella canlyniadau i blant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol).

Tynnodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol sylw hefyd at y gwaith a wnaed ar fentrau eraill a fu'n destun ffocws yn y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, sef -

- Y Tîm Teuluoedd Gwydn sy'n ymyrryd â theuluoedd sy'n cyflwyno gyda lefel uchel o angen er mwyn darparu cefnogaeth ac ymyriadau dwys i gefnogi teuluoedd sydd wedi torri lawr ac i atal plant rhag mynd i ofal.
- Prosiect Voices from Care Cymru sy'n ceisio gwella ymgysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu grŵp cyfranogi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd wedi gadael gofal i gyd-gynhyrchu Strategaeth Plant mewn Gofal ac Ymadawyr Gofal a Siartr Rhiantu Corfforaethol ar gyfer Ynys Môn.
- Y Pythefnos Maethu a gynhaliwyd ym mis Mehefin ac sy'n ddigwyddiad blynyddol sy'n ceisio codi proffil Gofalwyr Maeth ac annog mwy o aelodau'r cyhoedd i ymuno a dod yn ofalwyr maeth.
- Recriwtio Gofalwyr Maeth. Mae'r ymgyrch recriwtio fel y'i cryfhawyd gan y pecyn maethu newydd ym mis Ionawr, 2019 wedi bod yn llwyddiannus a bydd o bosibl yn darparu hyd at 24 o welyau gofal maeth newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn erbyn mis Hydref 2019.

Croesawodd a nododd y Pwyllgor y datblygiadau fel y'u dogfennwyd. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch a yw’r ymgyrch recriwtio gofalwyr maeth yn mynd rhagddi, hysbyswyd y Pwyllgor fod dull yr Awdurdod o gyflwyno'r pecyn maethu newydd i hybu recriwtio wedi ennyn diddordeb yn allanol gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill yn edrych i wneud yr un peth. Yr her i'r Awdurdod yw sicrhau ei fod yn aros ar y blaen o ran ei ddarpariaeth a bod ei becyn maethu yn parhau i fod yn ddeniadol a'i fod y gorau y gall fod.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cadarnhau ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

**6 MONITRO CYNNYDD: PANEL GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd adroddiad diweddaru cynnydd ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (y Panel Gwella Gwasanaethau Plant gynt) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dygodd y Cynghorydd GO Jones, aelod o’r Panel, sylw at y ffaith fod yr adroddiad cynnydd yn cwmpasu’r cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf, 2019 ac yn cynnwys cyfarfod olaf y Panel

DRAFT

Gwella Gwasanaethau Plant a dau gyfarfod cyntaf y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol sydd newydd ei sefydlu. Mae rhai o'r prif feysydd a ystyriwyd gan y Panel yn ystod yr amser hwn wedi cynnwys y 5 thema sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth; parhad yr Ymweliadau Laming a'r Strategaeth Atal Gorfforaethol ddrafft. Mae'r Panel hefyd wedi trafod y strategaeth genedlaethol arfaethedig i leihau nifer y plant mewn gofal. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, roedd y Panel wedi argymell y dylai'r ymateb i Lywodraeth Cymru gyfeirio at strategaeth yr Awdurdod ar gyfer atal plant rhag dod i ofal ac na ddylid gosod targed ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn lleol.

Adroddodd y Cynghorydd Jones hefyd fod aelodau o'r cyn Banel Gwasanaethau Plant wedi cynnal hunanwerthusiad o effaith y Panel o ran ei gyfraniad at y siwrnai tuag at wella'r Gwasanaethau Plant. Caiff canlyniad yr ymarfer hunanarfarnu ei grynhoi yn yr adroddiad ac mae'r adroddiad hunanarfarnu wedi'i atodi'n llawn.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r canlynol -**
  - **Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol o ran cyflawni ei raglen waith newydd.**
  - **Y meysydd gwaith yr ymdriniwyd â hwy yn ystod Ymweliadau Laming fel ffordd o gryfhau atebolrwydd, gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel ymhellach.**
  - **Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, y mae llawer ohoni yn cael ei darparu'n fewnol.**
  - **Y bydd y Strategaeth Atal Gorfforaethol ddrafft yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor yn yr hydref, 2019.**
  - **Canlyniadau'r hunanarfarniad diweddar i fesur effaith a gwerth ychwanegol yr hen Banel Gwella Gwasanaethau Plant.**
  - **Yr angen i adolygu'r cylch gorchwyl i adlewyrchu'r penderfyniad diweddar i ymestyn cwmpas y Panel Gwella i gynnwys y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant a theuluoedd.**
  - **Bod y Panel wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at yr oedi bychan o ran agor y cyntaf o Gartrefi Clyd Môn yr Awdurdod o ganlyniad i orfod ail-hysbysebu swydd rheolwr cofrestredig. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y camau a gymerwyd i ddatrys y mater ac i baratoi ar gyfer cam datblygu nesaf Gwasanaeth Cartrefi Clyd Môn.**

- **Cytuno ag argymhellion y Panel mewn perthynas â'r ymateb i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Strategaeth Genedlaethol ar Leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.**
- **Mabwysiadu argymhelliad y Panel y dylai'r Adroddiad Blynyddol ar Gwynion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei graffu gan y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

**7 POLISI CYFFREDIN AR GYFER GOSOD TAI A CHYSYLLTIAD LLEOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai ar ganlyniad ymgynghoriad a gynhaliwyd ar Bolisi Gosod Tai Cymdeithasol Ynys Môn yn ystod y cyfnod rhwng 17 Mehefin, 2019 a 5 Awst, 2019.

DRAFT

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod y Gwasanaeth Tai, yn dilyn derbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith, wedi ymgynghori ar ei Bolisi Gosod Cyffredin er mwyn nodi a ddylid cynnwys cysylltiad cymunedol yn y polisi. Mae’r Gwasanaethau Tai yn awyddus i gyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy drwy sicrhau bod cysylltiadau teuluol a chymunedol yn cael eu cynnal ac mae'n bwriadu adolygu'r Polisi Gosod Cyffredin i weld a yw’r polisi presennol yn cyflawni'r nod hwnnw. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a derbyniwyd 114 o ymatebion fel a ddangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad gydag 85% o'r ymatebwyr yn mynegi eu cefnogaeth i gynnwys cysylltiad cymunedol yn y Polisi Gosod Cyffredin ar y sail y byddai'n cryfhau cymunedau ac yn ei gwneud yn haws i ddarparu cefnogaeth i deulu a ffrindiau. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ynghylch yr hyn a olygir gan gysylltiad cymunedol. Cafwyd ymateb da hefyd i gwestiynau eraill yn ymwneud â gweithredu'r Polisi.

Dywedodd y Swyddog fod yr adolygiad hefyd wedi rhoi cyfle i'r Gwasanaethau Tai edrych ar faterion eraill fel y'u crynhoir yn yr adroddiad. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i sut y byddai cysylltiad ag ardal benodol yn cael ei ddiffinio a'r casgliad oedd y byddai dalgylch y cynghorau cymunedol a thref yn cwrdd â'r gofyniad cysylltiad lleol sy'n cyfateb orau i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad, darperir Polisi Gosod Tai Cyffredin diwygiedig sy'n ymgorffori'r prif newid a ganlyn mewn perthynas â chysylltiad lleol o dan Atodiad 2 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo'n derfynol:

*Bydd ymgeisydd yn cael ei asesu yn unol â’i g/chysylltiad ag ardal y Cyngor Tref neu Gymuned y maent wedi nodi eu bod yn dymuno byw ynddi lle mae'r eiddo gwag wedi ei leoli. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried o fewn eu band yn nhrefn dyddiad. Bydd yn ofynnol o hyd i gael cysylltiad lleol o 5 mlynedd â'r Ynys ac eithrio mewn achosion lle mae angen brys am dŷ fel y diffinnir hynny dan y Ddeddf Tai.*

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ymhellach -

- Er mai dim ond trosglwyddiadau i unedau llety llai neu fwy oedd yn cael eu hystyried yn flaenorol, gellir ystyried trosglwyddiadau tebyg am debyg o dan y polisi diwygiedig;
- Bod y diffiniad statudol o lety gwarchod wedi newid; tai gwarchod yn hanesyddol oedd tai lle darparwyd gwasanaeth warden a lle roedd y meini prawf oedran yn nodi pobl 60 oed neu hŷn. Wrth i natur tai gwarchod newid, cyflwynwyd elfen o hyblygrwydd gyda llety o'r fath bellach yn cwmpasu ystod o feini prawf e.e. pobl 55 oed a hŷn, pobl 60 oed a hŷn, unigolion ag anabledd cofrestredig ac ati.
- Bod y stoc dai yn brin o lety 4 ystafell wely gyda dim ond 67 o unedau o'r fath ar gael ar hyn o bryd. Er mwyn cydnabod yr angen, mae'r Awdurdod yn datblygu unedau 4 ystafell wely fel rhan o'i ddatblygiadau tai newydd. Mae'r Awdurdod wedi datblygu strategaeth i annog unigolion / cyplau sydd mewn unedau tai sy'n fwy na'u hanghenion i symud i lety llai trwy ddatblygu byngalos hefyd fel rhan o’r stoc newydd o dai cyngor. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod yr angen am lety / unedau 1 a 2 ystafell wely ar gyfer pobl sengl. Mae datblygu unedau llai yn fwy problemus gan fod yn rhaid i'r unedau hyn gael digon o arwynebedd llawr i alluogi pobl i fyw ynddynt yn gyffyrddus ac iddynt beidio â chael eu hystyried yn llety dros dro.
- Mewn cymunedau lle mae prinder tir ar gyfer datblygu, gall yr Awdurdod ddefnyddio tir wedi'i eithrio ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Efallai na fydd rhestr aros tai cymdeithasol y Gwasanaeth Tai yn adlewyrchu'n llawn yr angen mewn pentrefi gwledig llai felly, lle mae tir yn cael ei nodi, gellir caffael gwasanaethau hwylusydd tai gwledig i sefydlu faint o

DRAFT

dir sydd ar gael yn yr ardal ac a oes awydd yn lleol i weld tai fforddiadwy yn cael eu datblygu.

**Ar ôl ystyried y broses ymgynghori a'r ymatebion iddi, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y broses wedi bod yn ddigonol a bod y newidiadau i'r Polisi Gosod Cyffredin yn dderbyniol yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd. Felly penderfynwyd argymell y Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 8 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor i'w hystyried mewn diwyg sy'n rhannu'r rhaglen yn ddwy – y tymor byr ar gyfer hydref 2019 a'r tymor hir hyd at Ebrill, 2020.

**Penderfynwyd -**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2019/20 yn amodol ar drafodaeth fewnol bellach ar y diwyg.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**



DRAFFT

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2019 |
| **Pwnc:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2019/20) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | CYNG ALED M JONES |
| **Aelod(au) Portfolio:** | CYNG DAFYDD RHYS THOMAS |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. – Argymhelliad/ion**

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf, 2019.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.3.1** Mae meysydd sy'n tanberfformio yn cael eu cydnabod a'u rheoli a chymerir camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a chreffir yn barhaus ar berfformiad ariannol gan roi pwyslais arbennig ar y gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol amdanynt, a'u cynorthwyo hwy'n arbennig, a hynny fel nad yw'r modd y maent yn rheoli perfformiad yn dirywio neu'n tanberfformio yn Ch3.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Adroddir bod dirywiad mewn agweddau ar berfformiad ym maes tai, cynllunio a gwasanaethau plant yn ystod Chwarter 2. Pa fesurau lliniaru ychwanegol a ystyriwyd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad dros y misoedd nesaf?<br><br>2. Ar ddiwedd Qtr2, mae perfformiad ar draws 3 dangosydd gwasanaeth yn felyn gyda thuedd yn dirywio. Pa fesurau fydd yn cael eu cyflwyno i liniaru yn erbyn dirywiad pellach mewn perfformiad?<br><br>3. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwysau gwasanaeth ariannol yn enwedig yn y Gwasanaeth Oedolion. Pa gyfraniad pellach y gall y Panel Craffu Cyllid ei wneud i sicrhau bod pwysau ar wasanaethau yn cael sylw?<br><br>4. A yw'r wybodaeth yn cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch perfformiad yn gyffredinol? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| 1.1 Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Gwella Cymru yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith sy'n ein galluogi i ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol yn effeithiol, a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n gallu i'w diwallu a gwerthuso effaith ein gweithredoedd.<br><br>1.2. Mae ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac yn nodi ein hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF). Mae'r DGF yn cael ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol y bydd y cyngor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y 12 mis sydd i ddod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad |

Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf yn erbyn y Ddogfen Gyflenwi Flynyddol hon, ac fe'i cyhoeddir cyn diwedd mis Hydref.

1.3. Defnyddir yr adroddiad hwn ar fonitro’r cerdyn sgorio hwn fel rhan o'r broses o fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd, sy’n gyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth gyflawni gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Mae'r cerdyn sgorio yn portreadu’r sefyllfa gyfredol ar ddiwedd Ch2 a bydd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch2.

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 2

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2019/20 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.)

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 2 (2019/20)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF).

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2 a chaiff sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. CYD-DESTUN

2.1.Cytunwyd yn y gweithdy a nodwyd eisoes bod angen gwneud rhai newidiadau i'r Cerdyn Sgorio eleni er mwyn sicrhau dull mwy strategol. I'r perwyl hwnnw, mae'r DPA sy'n monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan strategol y Cyngor :

- Amcan 1 - Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2. Ni fydd yn bosibl cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob DPA ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Pan fydd hyn yn wir, bydd nodyn yn nodi pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3 Ers trafod yr adroddiad ar gerdyn sgorio chwarter 1 ym mis Medi 2019, mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) pellach wedi'u cyhoeddi gan Data Cymru yn benodol ar Reoli Gwastraff. 'Rydym yn falch o gadarnhau mai'r awdurdod hwn, unwaith eto, sydd â'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru, gan olygu ein bod,

unwaith yn rhagor, ymysg y rheini sy’n arwain y byd o ran cyfraddau ailgylchu gwastraff.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (71%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau (CAMG Gwyrdd neu Melyn) fel ar ddiwedd Ch1 . Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Mae presenoldeb yn y lle gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac a ddadansoddir i sicrhau gwelliant. Ar ddiwedd Ch2 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 3.96 diwrnod yn cael ei golli fesul gweithiwr (cyfwerth ag amser llawn) yn y cyfnod yn erbyn targed o 4.48 diwrnod . Mae hyn yn welliant ar y lefelau a welwyd yn ystod Ch2 2018/19 lle collwyd 4.74 diwrnod oherwydd absenoldeb. Mae hefyd yn well na'r 4.25 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr (cyfwerth ag amser llawn) a welwyd yn Ch2 2017/18, sef y flwyddyn y gwelwyd y perfformiad gorau yn y maes hwn ers i ni ddechrau monitro yn y fath fodd.

3.3. Mae'r strategaeth ddigidol yn parhau i ddwyn ffrwyth yn ystod Ch2 lle mae’r rhan fwyaf o’r dangosyddion o dan yr is-bennawd ‘newid i wasanaeth digidol’ yn gweld tuedd ar i fyny o'i gymharu â Ch2 yn 2018/19 lle mae 83% o’r dangosyddion yn dangos cynnydd . Gellir gweld y newid yn arbennig yn nifer y defnyddwyr cofrestredig (eitem 10) lle mae'n fwy na dwbl (11k) y 5k a welwyd ar ddiwedd Ch2 2018/19. Mae hyn yn gadarnhaol gan fod astudiaethau a gynhaliwyd gan Socitm (Cymdeithas arloesi, technoleg a moderneiddio) yn dangos bod costau trafodion digidol yn is na chostau cyswllt wyneb yn wyneb.

3.4. Ar hyn o bryd nid oes achos i bryderu gyda'r is-bennawd ‘siarter gwasanaeth cwsmer’ lle mae mwyafrif (75%) y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Yr unig ddangosydd sy'n GOCH yn erbyn y targed yw eitem 04b – canran y cwynion ysgrifenedig yr ymatebodd y Gwasanaethau Cymdeithasol iddynt o fewn 15 diwrnod. Trafodwyd 20 o'r 21 (95%) o gwynion gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen . Er ymateb yn ysgrifenedig i 12 o'r 21 o gwynion (57%) o fewn yr amserlen, yn achos 5 o'r ymatebion ysgrifenedig hwyr fe estynnwyd yr amserlen ar gyfer ymateb trwy gytundeb gyda’r achwynydd, a hynny er mwyn caniatáu mwy o amser i ymateb,  gan adael 4 a oedd yn hwyr heb gytundeb.

3.5. Cymeradwywyd y Strategaeth Cwsmeriaid yn ystod Ch2 gan y Bwrdd Rhaglen Llywodraethu Corfforaethol ac mae cynllun gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu . Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys monitro'r DPA ar gyfer Gwasanaeth Cwsmer a nodir yn y Cerdyn Sgorio, yn ogystal â DPA eraill a ddefnyddir i sicrhau bod y Strategaeth Cwsmeriaid yn cael ei gwireddu.

3.6. Ar hyn o bryd mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld, ar sail y sefyllfa ariannol ar ddiwedd yr ail chwarter, y bydd y Cyngor yn gorwario ei gyllideb refeniw, ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020, gan £ 1.935m (1.43%). Disgwylir gorwariant o £1.410m yn y  cyllidebau gwasanaeth a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol yn gorwario £0.341m. Disgwylir i incwm y Dreth Gyngor fod £184k yn is na'r gyllideb, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn eiddo gwag yn amodol ar y

premiwm ychwanegol o 100% a chynnydd yn y trethdalwyr sy'n gymwys ar gyfer yr eithriad nam meddyliol difrifol. Y duedd hanesyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu tanwariannau / gwargedion sylweddol yn y meysydd Cyllid Corfforaethol a'r Dreth Gyngor. Mae hynny wedi helpu i leihau gorwariant mewn costau gwasanaeth. Yn anffodus, ar gyfer 2019/20 mae'r cyllidebau hyn hefyd dan bwysau ac ni fyddant ar gael i ariannu gorwario mewn gwasanaethau.

3.7. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion dan bwysau sylweddol oherwydd y galw cynyddol ac yn sgil trosglwyddo lleoliad costus o'r Gwasanaethau Plant. Y patrwm arferol yw bod y sefyllfa alldro derfynol yn well na'r amcangyfrif yn yr ychydig chwarteri cyntaf, ond, pe bai'r gorwariant a ragwelir yn digwydd, byddai'n cael ei ariannu o falansau cyffredinol y Cyngor a fyddai'n gostwng i £ 4.346m. Mae'r gostyngiad hwn yn gwanio sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio balansau cyffredinol i ariannu rhan o gyllideb 2019/20.

3.8. Gellir gweld mwy o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro ar y Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2 ' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd.

3.9. Yr hyn y mae hyn yn ei ddangos felly yw'r sicrwydd rhesymol y gellir ei ddarparu, trwy ddefnyddio'r dadansoddiad o'r cardiau sgorio, fod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cwrdd â'r disgwyliadau i safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan Aelodau. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod y dangosyddion yn y maes rheoli perfformiad hefyd yn perfformio'n dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Ar ddiwedd Ch2 mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (85%) y dangosyddion yn parhau i berfformio'n uwch na'u targedau neu o fewn 5% ohonynt. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn Chwarter 2 yn 2018 /19. Fodd bynnag, 'rydym yn nodi bod pum dangosydd wedi bod yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ar gychwyn y flwyddyn ac amlygwyd y rhain yn Goch neu'n Ambr yn y Cerdyn Sgorio .

4.2. Mae'r perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch2 wedi bod yn dda gan mai dim ond un dangosydd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd yn erbyn ei amcan.

4.2.1. Dangosydd 17 - Gwasanaethau Landlord: Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau gwaith trwsio - sy'n dangos yn GOCH gyda pherfformiad o 15.14 diwrnod yn erbyn targed o 12 diwrnod . Mae hyn yn uwch na'r 13.39 diwrnod a welwyd yn Ch2 2018/19 a'r 12.33 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch1.

Yn dilyn newid yn y Polisi Atgyweirio a Chynnal a Chadw ym mis Hydref 2018, gellir cwblhau archebion gwaith o fewn 12 awr, 48 awr, 5 diwrnod, 20 diwrnod neu 3 mis yn dibynnu ar frys y gwaith. Yn flaenorol, gellid gosod archebion gwaith hefyd am 10 diwrnod a 15 diwrnod sydd be bellach ddim yn opsiwn. Wrth osod y targed o 12 diwrnod ar gyfer 2019/20 nid oedd gennym gyfnod o

12 mis i gymharu perfformiad blaenorol yn erbyn y dosbarthiadau newydd ac o'r herwydd, gallai'r targed a osodwyd fod yn rhy isel o ran nifer y diwrnodau ar gyfartaledd. Er enghraifft, os yw 80% o waith cynnal a chadw adweithiol yn dod o fewn y flaenoriaeth 20 diwrnod na'r diwrnodau targed cyffredinol ar gyfer pob swydd gallai fod oddeutu 16 diwrnod.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Tai yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn gyda'r bwriad o wella'r perfformiad.

Rydym yn falch o adrodd bod 93% o'r gorchmynion gwaith wedi'u cwblhau mewn pryd.

4.3. Roedd perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dangos mai dim ond 2 o'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn Ch2 (12 %) sy'n tanberfformio yn erbyn yr amcan ar hyn o bryd.

4.3.1. Dangosydd 27 - Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis – sy'n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 14.29% yn erbyn targed o 10% ac sydd wedi disgyn o'r 10.53% a welwyd ar ddiwedd Ch1.

Nid yw'r DPA hwn ond yn ymwneud â nifer gymharol fach o achosion, a gallai'r nifer amrywio'n sylweddol ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd adolygiad o'r ffeiliau achos ailgyfeirio yn canfod eu bod i gyd yn cael eu hailgyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth.

4.3.2. Dangosydd 36 - Gwasanaethau Landlord: Mae'r dangosydd ar gyfer canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag yn dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.57 % wedi'i golli yn erbyn targed o 1.15%

Mae'r dangosydd hwn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â dangosydd 35 ar y Cerdyn Sgorio sydd wedi gwella yn Chwarter 2, sef nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau y gellir eu gosod. Cafodd perfformiad gwael y dangosydd hwnnw yn Ch1 effaith ar y DPA hwn ac ni fu'n bosib crafangu'n ôl cymaint ag y gobeithiwyd er gwaethaf y gwelliant o ran gosod unedau a welir yn Ch2 .

Mae rhai eiddo wedi cael eu cadw'n wag yn fwriadol am gyfnod hirach na'r arfer gan eu bod wedi cael eu hystyried i'w defnyddio fel rhan o'r prosiect Cartrefi Grwpiau Bach gyda'r Gwasanaethau Plant.

Roedd rhai eiddo a oedd angen addasiadau cyn eu hail-osod yn cael eu cadw'n ôl am gyfnod o amser. Roedd hyn oherwydd bod achosion o oedi byr wrth aros am gyfarwyddiadau Therapydd Galwedigaethol. Disgwyliwn i hyn wella ar ôl penodi Therapydd Galwedigaethol rhan amser o fewn y Gwasanaeth Tai.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi bod yn gwneud gwaith gwella mawr ar rai eiddo a gafodd eu hystyried yn fethiannau derbyniol o ran WHQS gan fod y cyn-denantiaid wedi penderfynu nad oeddent am i welliannau gael eu

gwneud ar eu heiddo, mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel methiant derbyniol ‘Ddewis Preswyl’ gan y WHQS.

Mae'r holl ffactorau a nodwyd uchod wedi cael effaith negyddol ar y dangosydd perfformiad hwn.

Byddem yn parhau i weithredu'r broses symlach newydd a nodwyd yn Ch1 i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

4.4. Mae'r dangosyddion i fonitro **Amcan 3** hefyd wedi perfformio'n dda yn Ch2, ond mae dau ddangosydd o'r saith (28%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan hwn wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

4.4.1. Dangosydd 43 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sy’n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 33% yn erbyn targed o 65%, gostyngiad ar y 50% a welwyd ar ddiwedd Ch1.

Bychan iawn yw’r niferoedd dan y dangosydd hwn a gellir priodoli’r perfformiad ar ddiwedd y chwarter hwn i’r ffaith bod 2 o'r 3 apêl wedi llwyddo ar ôl herio’r dehongliad o’r polisïau newydd. Bydd y dehongliad o’r polisïau newydd yn gwella.

4.4.2. Dangosydd 43 - Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt cyn pen 84 diwrnod – sy’n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 69% yn erbyn targed o 80%. Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer y Cerdyn Sgorio eleni, ond roedd perfformiad y dangosydd hwn yn 17% yn ystod Ch4 2018/19 a 55% ar ddiwedd Ch1.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ystyried y llwyth gwaith oedd wedi cronni ac mae'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd sylweddol wrth i brosesau newydd gael eu hymgorffori ac wrth i'r llwyth gwaith gael ei glirio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau i'r flwyddyn i ddod.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd hynny y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

5.1.1. Mae meysydd sy’n tanberfformio yn cael eu cydnabod a'u rheoli a chymerir camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a chreffir yn barhaus ar berfformiad ariannol gan roi pwyslais arbennig ar y gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol amdanynt, a’u cynorthwyo hwy’n arbennig, a hynny fel nad yw’r modd y maent yn rheoli perfformiad yn dirywio neu’n tanberfformio yn Ch3 .

5.2. Gofynnir i’r pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2019/20

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch/ Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | 93.90% | 93.90% | - | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | - | - | - | 93.30% | 93.30% | 93.90% | 93.30% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 1.10% | 4.20% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | - | 349.1 | 335.9 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 88.30% | 72.60% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 65% | 63.70% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | - | 82% | - |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↓ | 244k | 253k | 553k | 553k | 508k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | Melyn / Yellow | ↓ | 89% | 90% | 90% | - | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 76% | 50% | 50% | 70% | - |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 80% | 80% | 83% | - |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 74 | 37 | 75 | 78 | 75 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 2 | 2 | 4 | 9 | 4 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | 100% | - |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Coch / Red | ↓ | 15.14 | 12 | 12 | 13.63 | - |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Melyn / Yellow | ↓ | 3.7 | 3 | 3 | 7.78 | 6.58 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 89.76% | 90% | 90% | 90.91% | 93.25% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↓ | 41.7% | 35% | 35% | 30.87% | 59.26% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 62.16% | 62% | 62% | 62.84% | 62.65% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↓ | 18.64 | 19 | 19 | 17.35 | 17.44 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 96.80% | 93% | 93% | 93.30% | 96% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.43% | 90% | 90% | 86.17% | 67.57% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.80% | 5% | 10% | 9.52% | 9% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Ambr / Amber | ↓ | 14.29% | 10% | 10% | 16.87% | - |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 230 | 270 | 270 | 241 | 326.5 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | → | 98.19% | 95% | 95% | 98% | - |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 85.84% | 90% | 90% | 86.17% | 63.32% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 74.62% | 60% | 60% | - | - |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↓ | 79.17% | 60% | 60% | 55.10% | 65.20% |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 160.5 | 170 | 170 | 161.9 | 177 |
| (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↑ | 22 | 21 | 21 | - | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 1.57% | 1.15% | - | 1.30% | - |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 97.16% | 95% | 95% | 95.60% | 93.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↓ | 70% | 70% | 70% | 69.86% | 72.20% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 1 | 1 | 1 | 0.2 | - |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 106kg | 120kg | 240kg | 240kg | 236kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 92% | 90% | 90% | 80% | 86% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Ambr / Amber | ↓ | 33% | 65% | 65% | 74% | 47% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Ambr / Amber | ↑ | 69% | 80% | 80% | - | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 2.90% | 2.90% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 3.80% | 3.80% | 4.20% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 8.70% | 8.70% | 8.90% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol  Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed  Gwyrdd - ar darged neu'n uwch  Tuedd - chwarterol yn erbyn y targed

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2019/20

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 33 | 19 | 76 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↓ | 7 | - | 8 | 9 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↓ | 8 | - | 27 | 28 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 93% | 92% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 57% | 80% | 57% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 21 | - | 44 | 51 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↓ | 47 | - | 62 | 112 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 270 | - | 513 | 753 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 80% | 81% | 78% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | ↓ | 463 | - | 1052 | 919 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 11k | - | 8.2k | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 3.8k | - | 4.7k | 2k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↓ | 7.3k | - | - | - |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↓ | 3.8k | - | - | - |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 32k | 29.5k | 29.5k | 25k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 383k | - | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2206 | - | 2243 | 2252 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1231 | - | 1252 | 1244 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.96 | 4.48 | 10.34 | 9.96 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 1.54 | - | 4.68 | 4.63 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 2.43 | - | 5.66 | 5.32 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.39 | 4.36 | 12.21 | 10.39 |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 1.4 | - | 4.97 | 4.85 |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 2.03 | - | 7.24 | 5.55 |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 3.6 | 3.31 | 9.57 | 9.67 |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↓ | 1.33 | - | 5.26 | 5.32 |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 2.27 | - | 4.31 | 4.35 |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 11% | 11% | 11% |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 80% | 84% | 90.50% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↓ | £66,155,987 | £66,509,788 | 0.53% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↓ | £135,210,190 | - | - | £137,145,191 | 1.43% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £25,910,000 | - | - | £16,822,000 | -35.08% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £2,561,000 | - | - | £2,165,800 | -15.43% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↓ | -£5,210,818 | -£5,887,285 | 12.98% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | → | £2,184,000 | - | - | £0 | 0.00% |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | → | £4,262,730 | - | - | £4,260,516 | -0.05% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | ↓ | - | 84.44% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.90% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.80% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 96.90% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 99.39% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 98.73% | - | - | - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **21 Tachwedd 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
| --- |
| |

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (3 Mehefin, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2019/20: Chwarter 2 a 3. |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2019

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI: MEDI → RHAGFYR, 2019**
**[Fersiwn dyddiedig 14/11/19]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Medi, 2019 (11/09/19)** | **Medi, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 23/09/19 → 11/09/19)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2019/20 | Monitro Contractau Gofal Cymdeithasol |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19 | Trefniadau Diogelu (Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| Monitro Gwelliannau Gwasanaethau Plant / Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| Polisi Gosod Tai (cyswllt lleol) | |
| | |
| | **Cyfarfod Arbennig (24/10/19)** |
| | Cynllun Datblyu Lleol ar y Cyd – Adroddiad Monitro Blynyddol |
| | Fframwaith datblygu cenedlaethol drafft – ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru |
| | Craffu Partneriaethau – adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor |
| | |
| **Tachwedd, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 04/11/19 → 21/11/19)** | **Tachwedd, 2019 (12/11/19)** |
| Monitro Perfformiad Ch2: 2019/20 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: 2018/19 |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Strategaeth Cyfleon Dydd (anableddau dysgu) (camau nesaf)
Medrwn Môn
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → IONAWR – EBRILL, 2020**
**[Fersiwn dyddiedig 14/11/19]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 23/10/19 → 13/01/20)** | **Ionawr, 2020 (21/01/20)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019) |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19 |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| | |
| **Chwefror, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 03/02/20 → i'w gadarnhau)** | **Chwefror, 2020 (04/02/20)** |
| Cynigion drafft terfynol cyllideb 2020/21 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2020/24 |
| Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| **Mawrth, 2020 (09/03/20)** | **Mawrth, 2020 (10/03/20)** |
| Monitro Perfformiad Ch3: 2019/20 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | Cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Cyngor |
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: adroddiad cynnydd | |
| | |
| **Ebrill, 2020 (06/04/20)** | **Ebrill, 2020 (07/04/20)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gwynedd a Môn |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: adroddiad cynnydd |
| | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Strategaeth Cyfleon Dydd (anableddau dysgu) (camau nesaf)
Medrwn Môn
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor

Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor
Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019); Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19

This page is intentionally left blank